

## Speech Link

### Gweminarau Hyfforddiant Language Link AM DDIM i Ysgolion Uwchradd (am ddim i danysgrifwyr)

Mae ein gweminarau hyfforddi i ddefnyddwyr newydd wedi bod yn llwyddiannus iawn, gyda staff o 100 o ysgolion yn bresennol bob tro. Efallai hoffech chi ddysgu am Language Link mewn ysgolion uwchradd neu loywi'ch gwybodaeth a gofyn cwestiwn. Bydd y sesiynau rhad ac am ddim nesaf yn cael eu cynnal ym mis Chwefror gan Louise Bingham, therapydd lleferydd ac iaith.

Mae'r hyfforddiant yma wedi'i rannu'n ddwy ran felly mae'n ofynnol i chi fod yn bresennol yn y ddwy sesiwn. Os ydych chi'n dymuno cofrestru, cysylltwch â'r Ddesg Gymorth. Ar hyn o bryd, dim ond un lle y mae modd i bob ysgol ei gadw. Serch hynny, does dim cyfyngiad ar nifer staff yr ysgol sy'n gwyllo'r sesiwn yma ar yr un monitor (os oes modd). Os bydd lleoedd dros ben yn agosach at yr amser, bydd modd i ni ychwanegu staff ysgol ychwanegol o restr aros. Mae angen bod yn bresennol yn y ddwy sesiwn gyda'r hwyr. E-bostiwch [office2@speechlink.co.uk](mailto:office2@speechlink.co.uk) os hoffech chi 'fod yn bresennol'.

Dydd Mercher 3 Chwefror - 3.30-5.00pm

Dydd Mercher 10 Chwefror - 3.30-5.00pm

### NEWYDD!! Cynhadledd Rithwir Link Live - Taith unigolyn ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLCN) rhwng 4-14 oed

Dyddiad: 21-22 Mai 2021

Lleoliad: ar-lein

Bydd ein cynhadledd rithwir gyntaf erioed yn cael ei chynnal y gwanwyn nesaf ac fe fydd yn rhoi llwyfan i gynnwys SLCN arbenigol, gan gynnwys ystod o ymyraethau â thystiolaeth, i'ch helpu chi a'ch ysgol i hybu sgiliau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu a chau'r bwlch o ran cyrhaeddiad.

Bydd ein seminarau yn cael eu cynnal gan siaradwyr arbenigol ac rydyn ni'n falch iawn o gyhoeddi'r cyntaf o'n siaradwr gwadd, sef yr arbenigwr addysg a chyn Hyrwyddwr Cyfathrebu, Jean Gross CBE. Mae'r gynhadledd yma'n agored i bawb, ac mae lleoedd **am ddim** i ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n tanysgrifio.

Os oes gennych chi ddiddordeb dod i'r seminar, ffoniwch y Ddesg Gymorth ar 0333 577 0784. Byddwch hefyd yn derbyn y newyddion diweddaraf trwy e-bost bob mis gyda rhagor o wybodaeth am siaradwyr a seminarau.